# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 4 Rhagfyr 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

# 247(v4)

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel Gweinidog Brexit)

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

**David Rees (Aberafan)** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn cyhoeddiad Tata Steel ynghylch colli 1000 o swyddi yn y DU?

Gofyn i'r Prif Weinidog

**Leanne Wood (Rhondda):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r bygythiad i ddinasyddion Cymru yn dilyn yr ymosodiad terfysgol yn Llundain ddydd Gwener diwethaf?

**I'w ateb gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip.**

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol ac Ardal

(30 munud)

**NDM7210** Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Gwasanaethau nyrsio cymunedol a nyrsio ardal, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Awst 2019.

Sylwer: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Medi 2019.

## 6 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Eiddo Gwag

(60 munud)

**NDM7212** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 'Eiddo gwag', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2019.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Tachwedd 2019.

## 7 Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau - Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

(60 munud)

**NDM7213** Russell George (Sir Drefaldwyn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar ei Ymchwiliad i'r: Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2019.

Sylwer: Gosodwyd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 27 Tachwedd 2019.

## 8 Dadl Plaid Cymru - Brexit a Chytundeb au Masnach yn y Dyfodol

(60 munud)

**NDM7214** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) bod y DU ar fin gadael yr UE ar 31 Ionawr 2020;

b) bod trafodaethau masnach anffurfiol rhwng y DU a'r Unol Daleithiau ynghylch bargen fasnach yn y dyfodol wedi dechrau, ac mae hynny, yn ôl y sôn, yn cyfeirio at farchnadeiddio patentau/prisio cyffuriau'r GIG;

c) bod cytuniadau rhyngwladol y tu allan i gwmpas pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

d) bod adran 82 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo Gweinidogion Cymru i gymryd unrhyw gamau sy'n ofynnol at ddibenion gweithredu unrhyw rwymedigaeth ryngwladol.

2. Yn credu:

a) mai'r ffordd orau o wasanaethu dyfodol Cymru fyddai drwy barhau i fod yn aelod o'r UE ac y dylid cynnal refferendwm rhwng aros ac opsiwn credadwy ar gyfer gadael;

b) na ddylai GIG Cymru gael ei orfodi gan Lywodraeth y DU i agor ei farchnad ar gyfer mwy o ddarpariaeth breifat, neu orfod derbyn cynydd mewn costau cyffuriau

a osodir arno o ganlyniad i unrhyw gytundeb rhyngwladol sy'n ymestyn patentau ac yn cyfyngu ar y defnydd o gyffuriau generig;

c) byddai cytundeb masnach yn y dyfodol rhwng y DU a'r Unol Daleithiau a fyddai'n cynnwys darpariaethau'n ymwneud â'r GIG yn drychineb i GIG Cymru;

d) bod y system gofal iechyd yn yr Unol Daleithiau wedi methu â rheoleiddio'n briodol y modd y caiff opioidau eu marchnata a'u rhagnodi, ac mae'n nodi bod yr amgylchedd rheoleiddiol annigonol hwn wedi cyfrannu at dros 70,000 o farwolaethau yn yr Unol Daleithiau oherwydd gorddos o opioid yn 2018, a dim ond un enghraifft yw hyn o beryglon dadreoleiddio a allai ddilyn cytundeb masnach a ysgrifennwyd er budd cwmnïau fferyllol yr Unol Daleithiau

e) na ddylai Llywodraeth y DU allu cyfarwyddo Gweinidogion Cymru i gymryd camau mewn meysydd sydd wedi'u datganoli sydd â'r potensial i gael effaith andwyol ar wasanaethau cyhoeddus Cymru.

3. Yn galw am:

a) i seneddau datganoledig y DU gael feto ar faterion masnach sydd â'r potensial i effeithio ar feysydd datganoledig;

b) i Aelodau Seneddol o Gymru gefnogi Bil diogelu'r GIG sydd i'w gyflwyno yn San Steffan yn y tymor newydd;

c) ddiddymu adran 82 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Deddf Llywodraeth Cymru 2006

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod Cymru wedi pleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd ym mis Mehefin 2016.

2. Yn credu y dylid rhoi canlyniad refferenda ar waith bob amser.

3. Yn croesawu'r cyfleoedd i Gymru a fydd yn codi o ganlyniad i gytundebau masnach rydd newydd ar ôl ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r UE.

4. Yn cydnabod, o dan y setliad datganoledig, mai mater i Lywodraeth y DU yw'r cyfrifoldeb dros gytuniadau rhyngwladol.

5. Yn cydnabod y sicrwydd a roddwyd gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â mynediad i'r farchnad i'r GIG mewn cytundebau masnach yn y dyfodol.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2 - Rebecca Evans (Gŵyr)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn galw am:

a) i'r sefydliadau datganoledig gael rôl ffurfiol mewn negodiadau ar gytundebau rhyngwladol pan fyddant yn effeithio ar gymwyseddau datganoledig, a hynny i ddigwydd ar bob cam o'r negodiadau a chyda chefnogaeth statudol.

b) confensiwn cyfansoddiadol i'r DU gyfan i sicrhau bod y trefniadau cyfansoddiadol yn y dyfodol yn adlewyrchu hyn ac i atal Llywodraeth y DU rhag diystyru'r Cynulliad Cenedlaethol lle bo'n gweithredu o fewn cymhwysedd datganoledig.

Yn edrych ymlaen at ethol Llywodraeth yn y DU sydd wedi ymrwymo'n llawn i ddiogelu'r GIG yng Nghymru ac ar draws y DU.

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer - Ni chyflwynwyd cynnig

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 10 Rhagfyr 2019

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 27/11/2019 i'w hateb ar 04/12/2019

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

**Hefin David** *Caerffili*

1 OAQ54785

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth cerbydau ar y rheilffordd rhwng Rhymni a Chaerdydd?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

2 OAQ54790

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid grant ar gyfer busnesau lleol yn Aberconwy?

**Gareth Bennett** *Canol De Cymru*

3 OAQ54789

**(e)**

Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r economi yng Nghanol De Cymru dros y 12 mis nesaf?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

4 OAQ54788

**(e)**

Pa fentrau sydd ar waith gan Lywodraeth Cymru i wella economi Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

5 OAQ54802

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella trafnidiaeth gyhoeddus o fewn cymoedd y gogledd?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

6 OAQ54787

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adnewyddu gorsafoedd rheilffyrdd yng Nghymru?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

7 OAQ54782

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i wella'r rhwydwaith cefnffyrdd yn Sir Fynwy?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

8 OAQ54806

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch newidiadau i amserlennu trenau yng ngorllewin Cymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

9 OAQ54775

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu'r sectorau economaidd yn Abertawe sy'n talu cyflogau da?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

10 OAQ54786

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi economi gogledd-ddwyrain Cymru?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

11 OAQ54779

**(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhagor o fuddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

12 OAQ54792

**(e)**

Pa gamau pellach y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella diogelwch ar y ffyrdd yn Nwyrain Casnewydd?

# Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

1 OAQ54800

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda'r Gweinidog Addysg ynghylch darparu addysg ar ôl Brexit?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

**2** OAQ54780

**(e)**

Pa ddarpariaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud ar gyfer cydweithredu trawsffiniol ym Mhrydain ar ôl Brexit?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**3** OAQ54791

**(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch cynllunio ar gyfer Brexit heb gytundeb?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

**4** OAQ54796

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith y bydd cynnal refferendwm arall ar Brexit yn ei chael ar economi Cymru?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

**5** OAQ54795

**(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch statws gwladolion tramor yr UE sy'n byw yng Nghanol Caerdydd, pe bai'r DU yn gadael yr UE yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

**6** OAQ54797

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o oblygiadau Brexit i GIG Cymru?

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**7** OAQ54794

**(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gydag arweinyddion pleidiau gwleidyddol cenedlaethol y DU ar bwnc ail refferendwm yr UE?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

**8** OAQ54801

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal ynghylch y berthynas rhwng yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru yn y dyfodol?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

**9** OAQ54783

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau ynghylch sut y bydd cronfa ffyniant gyffredin yn gweithio yn y dyfodol?